



Cymdeithas Edward Llwyd
Rhif Elusen Gofrestredig : 1126027

Bwletin Llên Natur 11

i Naturiaethwyr ac i Bobl Cymru
www.llennatur.com



Hanes - 'ta llanast? Mae cefn gwlad yn llawn "sbwriel" ein hanes diweddar. Hen awyrennau ar y mynyddoedd, tomenni llechi, blychau saethu'r "home guard", ac yng ngogledd Ffrainc byncars (neu *blochausen*) y Natsïaid. Pryd mae llanast yn dod yn hanes? Nid yw'r rhonwellt y tywyn sy'n tyfu yn y blaendir i'w gweld yn poeni llawer!

Delweddau dirgel (a lobscoŵs) i neb

Pam fyddai artist yn dymuno gwneud llun na welai neb fyth mohono? Yn ogofau Lascaux, de Ffrainc, 16,000 o flynyddoedd yn ôl, bu'n rhaid i un artist grobian i fyny hafn dywyll gul yn y graig i baentio llun ceffyl. Roedd yn hafn nad oedd ynddo ddigon o le i ddyn sefyll, heb sôn am baentio llun ac edrych arno yn ei gyfarwydd.

Patrymau haniaethol a wnaeth pobl o gyfnod y Neolithig gwta bedair mil wyth gant o flynyddoedd yn ôl, ac ar gerrig beddi oedd y rheiny. Ni friadwyd i'r rhain chwaith gael eu gweld gan feidrolion byw, gan iddynt gael eu dylunio y tu fewn i'r gist gladdu. Ai delweddau ar gyfer y meirw yn unig oeddynt? Roedd y sawl a ddyluniodd y patrymau hyn yn nhywyllwch Barclodiad y Gawres, Rhosneigr, Môn yn hollol gyfarwydd â phatrymau cyffelyb o'r un cyfnod a amlygodd Edward Llwyd yn New Grange, dyffryn y Boyne, Iwerddon, yn yr 17eg ganrif. Yr un patrymau yn union oeddynt.

Pa fath o berthynas oedd gan y bobl hyn a'i gilydd o boptu'r môr? Pa berthynas oedd ganddynt a'i gilydd y tu fewn i'w cymdeithas eu hunain, a pha berthynas y credent oedd ganddynt a'u meirw? Mae Barclodiad y Gawres yn feddrod ar ffurf croes gydag eithafion y groes yn perthyn i'r meirw a'r canol yn fan cyhoeddus. Yn y manau dirgel, ar gyfer y meirw yn unig, y dyluniwyd y delweddau haniaethol, ac yn y canol cyhoeddus yn 60au'r ganrif ddiwethaf daethpwyd o hyd i olion anifeiliaid na fyddai fyth yn cyd-ddigwydd yno yn naturiol.

Dyma sut y disgrifiodd yr archeolegydd Frances Lynch y darganfyddiadau ym mhridd y beddrod: "Ni chafodd y canol ei ddefnyddio i gladdu, ond yn hytrach ar gyfer defodau. Cyneuwyd tân yng nghanol y llawr a thra roedd

yn mudlogi arllwyswyd dogn o lobsgôws drosto, cyn ei ddiffodd gyda haen o gerigos a chregyn maharen. Adnabyddid cynhwysion y lobsgôws, o'r mân esgyrn yn y pridd, fel **gwrachen, yslywen, gwyniad môr, llyffant, llyffant dafadennog, llyffant y twyni (natterjack), neidr y gwair, llygoden, llyg ac ysgyfarnog.**"

Gwrachod Shakespeare a anfarwolodd ddefod debyg ym Macbeth a T. Gwynn Jones gyfieithodd eu llafargan i ni i'r Gymraeg:

"Llyffant fu dan garreg oer,/ Fis ynghwsg yn magu poer,/ Llysnafeddog wenwyn bryntaf,/ Berwer di'n y pair yn gyntaf....Dwbwl, dwbwl drin a thrwbwl, Llosged tân i ferwi'r cwbl".

Addasiad o erthygl a ymddangosodd yn Y Cymro.

Stori Pamela (o Saddleworth, Swydd Efrog)

Where did you get the photograph of the natterjack toad on the woman's hand which accompanied your article in Y Cymro (Oct. 3rd) . In about 1977 I went on a coach trip to Ainsdale, near Southport, Lancs to look at the flora of the sand dunes. Whilst we were there, a man with a camera asked me if I would be willing to hold a natterjack toad whilst he took a photograph of it. I agreed to. I was surprised at the smallness of the amphibian place on my left hand. I steadied my left hand with my right as the photo was taken. I never learnt the man's name but I was given to understand that the photo was for publication. Were you that man? Na Pamela, yn ne Iwerddon y tynnais y llun - mae'n ddrwg gen eich siomi! (llythyr Pamela Daniels, Saddleworth, Swydd Efrog)



Piod môr melyn



Y llynedd, cafodd plu mwy na chant o biod môr eu lliwio'n felyn fel rhan o brosiect a roddwyd ar waith gan y Cyngor Cefn Gwlad a'r *British Trust for Ornithology* (BTO). Y gaeaf yma, 'rydym yn gofyn i wylwyr adar chwilio am biod môr melyn wrth i ail gam y prosiect gael ei roi ar waith. Nod y prosiect yw dysgu mwy am sut mae'r adar yn mynd a dod ym Mae Caerfyrddin. Os gwelwch chi biden fôr felen, a wnewch chi roi gwybod i'r BTO, gan nodi'r lleoliad, yr amser, y dyddiad, a pha un ai oedd y lliw ar fron ynteu ar gynffon yr aderyn. Eisoes gwelwyd pioden fôr felen yn Dale, Sir Benfro, dros 65 cilometr o'r fan y cafodd yr aderyn ei ddal. "Dangosodd canlyniadau'r llynedd fod y rhan fwyaf o'r piod môr wedi treulio'r gaeaf yn ardal Porth Tywyn, er bod rhai wedi teithio ymhellach". Os gwelwch un o'r piod môr melyn, cysylltwch, yn eich Cymraeg gorau, â niall.burton@bto.org neu 01842 750050. Wnaiff y lliw melyn dros dro ddim niwed o gwbl i'r adar.

O Ddyddiadur y diwedd ar Wil Jones

Croesor 3 Tach 1979 Daeth Tachwedd a niwl trwchus i ni heddiw yn y pentref yma...wrth rhoi fy nhrwyn yn y drws heno, clywais bib fain **pioden y môr** yn chwibanu o'r niwl.

Daeargryn Lisbon a'r tsunami a'i dilynodd 1 Tachwedd 1755

Adroddiad ar y pryd gan Y Parch. Charles Davy: *...so violent that I could scarce keep on my knees... On a sudden I heard a general outcry, "The sea is coming in, we shall be all lost." Upon this, turning my eyes towards the river, which in that place is nearly four miles broad, I could perceive it heaving and swelling in the most unaccountable manner, as no wind was stirring. In an instant there appeared, at some small distance, a large body of water, rising as it were like a mountain. It came on foaming and roaring, and rushed towards the shore with such impetuosity, that we all immediately ran for our lives as fast as possible; many were actually swept away, and the rest above their waist in water at a good distance from the banks. For my own part I had the narrowest escape, and should certainly have been lost, had I not grasped a large beam that lay on the ground, till the water returned to its channel,* Mwy gan Davy ar : www.fordham.edu/halsall/mod/1755lisbonquake.html

Teimlwyd y tsunami gan wledydd fel Cymru ac fe gafodd y ddaeargryn effaith ar gwrs hanes Ewrop. *General fast on 6 Feb. on account of the dreadful earthquake in Lisbon and other places on first day of November last. The earthquake and the subsequent deluging of Lisbon by the waters of the Tagus, was followed by fire. The city was devastated and an estimated 30,000 lives lost. Diary of a Village Shopkeeper, Thomas Turner.*

Llun Jeremy Williams



Tynnwyd ar yr 2 Tachwedd 2008 ar ôl dyddiau o dywydd oer.

Grifft sêr

Dyma ddisgrifiad Myrddin Fardd o "grifft ser" yn ei gyfrol Llên Gwerin Sir Gaernarfon 1908: "Math o sylwedd glaswyn tryloew, meddal, a ddisgyn, meddir ar amserau o'r sêr. Dywedir ei fod yn fuddiol i wella amryw glefydau - atal effeithiau swynyddiaeth &c".



Bryn Castell, Llan Ffestiniog 18 Hydref 2008

Ceir amrywiaeth o enwau Cymraeg arno: chwyd awyr, chwydredd sêr, godro'r sêr, llwtrach yr awyr, pydredd y sêr (pwdre sêr/wtre'r sêr), syrth (y) sêr, yn ôl T.H.Parry Williams, a tripa'r sêr [*tripe?*] gan rai o bobl Morgannwg. Gan fod y werin bobl yn ei gysylltu â sêr cynffon a meteorau wedi syrthio i'r ddaear rhoddwyd yr enw Lladin *Tremella meteorica* arno gan wyddonwyr.

Yn ôl Geiradur Cymraeg y Canon Silvan Evans y mae cyfeiriad ato ymysg meddygyniaethau Meddygon Myddfai at wella defaid a dywed y Parchedig D.G.Williams, Ferndale yn ei gasgliad o Lên Gwerin Sir Gaerfyrddin (1895) bod gan 'wtre'r sêr' 'ddylanwad rhyfeddol i wella defaid .Y syniad yw mai o sêr y cwmp y sylwedd hwn ar y ddaear a defnyddir ef fel eli i'w rwbio ar y defaid.

Dywed rhai ei fod yn caneuio ac yn goleuo yn y tywyllwch, ond nid oes gennyf dystiolaeth bersonol o'i weld yn y nos. Yn rhyfedd iawn, nid yw'r arbenigwyr yn gytun ar beth yw'r jeli hwn. Ymhlith yr esboniadau eraill a gynigir ganddynt ceir 'chwyd adar' ar ôl iddynt fwyta llyffaint a'u grifft, math o ffwng neu gen, neu lwydni llysnafog, sbwriel wedi ei daflu o awyren, chwyd gwrachod a gweddillion bwystfilod atmosfferaid! Tybed a oes esboniad arall gan rywun i'w gynnig inni?

Steffan ab Owain

Moel eto...gan Guto Rhys

Mi'r ydw i wedi bod yn pendroni dros darddiad y gair 'moel' pan ddefnyddir ef mewn cyd-destun arall. Clywais sawl un yn defnyddio'r gair 'moel', weithiau gyda'r ynganiad 'môl', am y deunydd gludiog a ganfyddir yn y llygaid wrth godi'n fore. **'Huw cyn cwsg'** yw'r term mwyaf arferol hyd y gwn i. A yw'n rhannu tarddiad gyda'r defnydd trosiadol (?) a grybwyllodd Duncan [Rhifyn 8] h.y. y 'moel' yw'r hyn sy'n dod dros yr ymyl, ymyl yr amrannau yn yr achos hwn? Gweler WVBD 380, *'discharge from the eyes which congeals'*, 'peth yn casglu at y llygad wrth gysgu pan fydd un wedi cael annwyd' (f'orgraff ddiwygiedig i).

Derbyniwyd y neges uchod trwy

enwaulleoedd@yahoo.com

Safle sgwrsio yw hwn ar y we. Rhowch gynnig arni.

Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

Mae Guto Rhys, darlithydd mewn astudiaethau Celtaidd yn Mhrifysgol Glasgow, yn awyddus i ffurfio "Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru". (Hen bryd ddywedwn i, Gol.). Os am gymryd rhan trwy ymuno â phwyllgor llywio cysylltwch trwy'r safle sgwrsio.

Eisteddfod Rhosneigr 1915

O'r Rhestr Testunau

Rhaff Gerdded: o wair gwaun ac yn ddeg llath o hyd, cyfyngedig i weision amaethyddol heb fod dros 21 oed. Gwobr 4/-....

Pâr o lyffetheiriau o wair gwaun, cyfyngedig i weision amaethyddol ym Môn. Gwobr 2/6

"Môr hesg" *doormat* (18" x 24") Prize 4/- [pam rhoi hwn yn y Saesneg tybed?]

Rhaff gerdded yw *'narrow straw or rush rope pulled along the length of a haystack to secure the top'*. Gwair gwaun yw *'meadow hay'*. Beth yw eich gair chi am yr hyn a elwir yma yn llyffethair (*hobble* yn Saesneg) - clywais "fflethar" yn amrywiad arno gan Wil Williams, Bodorgan, a "carchar" yn Arfon, Gol.)

TYWYS MOCHYN



Teitl annisgwyl y llun hwn yw *"An Irish Obstructionist"*. Cafodd Wil Williams, perchen print o'r llun yr esboniad hon *"The Irish Obstructionists"* was the name given to certain Irish MP's who used filibustering to block the passage of bills through the Houses of Parliament. This suggests that the pig in the picture is an Irishman still legally tied his British mistress blocking her advance.

Bert a'i forthwyl sinc



Trawsgrifiad o bwt allan o recordiad a wnaed o sgwrs ddiweddar gyda Bert Parry, am atgofion ei blentyndod yn Llanberis.

D: Welist ti yn Llên Natur [Rhifyn 9] am y Dinpan Foresg ...beth ddoth i dy feddwl di?

Bert: ...oni'n gneud mothwl sinc, mothwl sinc dan i'n ddeud 'de - rattle yn Saesneg-

D: Tegan plentyn ydi hwn ia?

Bert: Ia neu'n addurn hefyd..wedi ei wneud allan o frwyn, well efo \hat{y} d wrth reswm, mae o'n gletach ac yn well...a tydwi'm yn gwbod lle ddysgish i i wneud, dwi di 'neud o ers pan o'n i'n hogyn bach...

D: Pam 'sinc' dwad?

Bert: Dwi'm yn gwbod. Tasa na frwyn yn fa'ma faswn i gwneud un rwan i chdi - eiliad faswn i yn ei wneud o....dwi'n dal i gofio sut i neud o, plethu'r brwyn, cael brwyn go dda, go hir...rhoi cerrig neu beth bynnag i mewn iddo fo...efo yd mae'n gneud \hat{s} wn gydol yr amser a fedri di farnisho nhw ...ond efo brwyn mae nhw'n mynd yn feddal a ma'r \hat{s} wn yn mynd allan ohonyn nhw ac mae nhw'n hongian ac yn mynd yn fler...

Dywedodd Bert hefyd ei bod hi'n amhosib i wneud morthwyl sinc o \hat{y} d bellach gan nad yw \hat{y} d yn tyfu'n ddigon tal cymaint o fridio a fu ar gyfer had ar draul coes

Os oes unrhyw un sydd am ymuno a grwp bach anffurfiol Hanes Llafar Llên Natur, cysylltwch am fanylion.

Adar y Wladfa

Mae gen i ddiddordeb yn y ffordd mae creaduriaid a phlanhigion cyffredin ond dieithr yn cael eu henwi am y tro cyntaf. Mae enwau'r Cymry ar adar a phlanhigion Y Wladfa yn gyfle i wneud hyn. A ydych chi'n adnabod Cymro neu Gymraes gyda chefnidir addas i'm cynorthwyo gyda'r prosiect yma? (Gol.)

O ddyddiadur John Evelyn (1620 - 1706).

Sais oedd yn byw yn Llundain oedd Evelyn a rhaid bod y stori wedi peri peth chwilfrydedd ar y pryd. Tybed a all unrhyw ddarlennydd roi cyfeiriad imi at adroddiad Cymreig o'r digwyddiad rhyfedd yma:

"A fiery exhalation rising out of the sea spread itself in Montgomeryshire a furlong broad and many miles in length, burning all straw, hay, thatch and grass, but doing no harm to trees, timber, or any solid things, onely firing barns or thatch'd houses. It left such a taint upon the grasse as to kill all the cattle that eate of it". (Ebrill 22, 1694) Rhaid bod rhyw gysail o ffaith i'r stori gan fod Edward Lluyd wedi cael clywed am y peth yn Awst 1694 ond mai at danau tebyg yn Siroedd Arfon a Meirion y cyfeiria.
Gwilym Owen, Wreccsam

Tywydd Huw a Twm



Dyma ddwy enfys, neu enfys ddwbwl, gyda chymylau *nimbostratus* y tu ôl iddynt. "*Rainbow at night, shepherd's (sailor's) delight, rainbow in the morning, shepherd's (sailor's) warning*" yw'r dywediad Saesneg ac 'enfys y bora - aml gawoda; enfys y pawns - tegwch a gawn' yn Gymraeg. Mae sbectrwm y lliwiau o chwith yn yr enfys allanol ac mae'r parth rhwng y ddau hefyd yn dywyllach na gweddill yr awyr. Hwn yw "*Alexander's dark band*". Rhaid cael cymylau i weld y lliwiau ar eu gorau - po fwyaf y diferion glaw, po gryfed y lliwiau.

Ydi'r dywediadau hyn yn dal dŵr? Gan fod ein tywydd ni yng Nghymru yn dod gan amlaf o'r gorllewin mae enfys gyda'r nos yn awgrymu bod yr haul yn disgleirio o'r cyfeiriad hwnnw wrth i'r glaw symud tua'r dwyrain. Mae hynny'n debygol o arwain at dywydd braf drannoeth. I weld enfys yn y bore rhaid edrych i'r gorllewin gyda'r haul, mewn awyr glir, y tu ôl i chi. Golyga hynny bod y glaw ar ei ffordd tuag atoch o'r gorllewin gan addo diwrnod gwlyb.

Cwestiwn gan Harri



Mae rhes o stanciau ar hyd gallt y môr uwch Porthoer ym Mhen Llŷn. Mae ambell i falwen ar sawl un ond pan mae cyfeiriad y stanciau yn newid mae rhyw ddwsin ohonynt yn llawn o falwod. Mae'n siŵr eu bod yn dod i lawr yn y nos i fwydo ond yn dychwelyd wedyn cyn dydd. Pam felly fod yr ychydig o bolion fel hyn yn denu'r mwyafrif llethol o'r malwod gan eu gadael yn glystyrau gyda'i gilydd? Yr un yw'r tyfiant ar hyd y ffordd ac yn wir toes fawr o gysgod yn unlle yno? Esboniad rhywun?

Hafod y Rhisg, Llanfaglan

Cofnod o gyfrif gwerthu rhisgl coed y 14 Tachwedd 1806 yn Hafod y Rhisg, merddyn ar dir Plas Llanfaglan heddiw. "Derw (182) - £69.12.6, Rhisgl - £72.0.0, Cord - £6.0.0" Mwy na thebyg, mynd i'r tanws byddai'r rhisg yng Nghaernarfon (Rhifyn 4) os nad oes rhywun yn gwybod yn wahanol! (IDW) Cofnodion Glynllifon, Archifdy Caernarfon

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng ceiliog gwŷdd a cheiliog gŷydd?

O ddyddiadur William Jones, Moelfre, Aberdaron*, dau ddiwrnod yn olynol

23 Chwefror 1867 sych a theg. Torodd chain y Ceiliog y gwydd [sic.]

Yr arad ydi hwn, ceiliog yn derm am ran ohono sy'n cysylltu efo gêr y ceffyl (Twm Elias)

24 Chwefror 1867 Yr hen wydd yn dodwy gyntaf

...a gwraig y clagwydd ydi hon (Twm eto) [ceiliog + gŷydd = clagwydd.]. A gyda llaw, dydi *horse chestnut* ddim yr un fath a *chestnut horse* chwaith! [Gol.]

*trwy garedigrwydd Mrs Wilma Miners a Miss Davida Roberts

Llyisiau Pentai

Enwau eraill ar llyisiau pentai yw byddarllys, bywfyth, bywlys, cwlwm y to, cyfagwy, cynffon y llygoden, dail llygaid, dilosg, irddail, llyisiau'r gwayw, mochyn to, tewddail y muriau, neu *houseleek* yn Saesneg. Fe'u tyfwyd mewn gerddi ers 1200 a chawsant eu plannu ar byrth a thouau eglwysi i'w hamddiffyn yn erbyn tân a mellit. Dyma ddywedodd Edward Thomas, Cwm Main, Y Bala yn ei ddyddiaduryn yr 1770au ; "Y Bethe sydd dda i mendio cloffni ar geffyl neu Strifiad ne sictod...Rhowch Blastar o wludd Pentai a golch ir a Brann a gwêr manllwyn [=saim cig dafad] ai berwi iashogen [?] a'i rhoi yng ngwres y gwaed ar gadach wrtho bob dydd".



Buchod coch cwta.

Roedd y chwilod bach yma yn niferus iawn yn haf poeth 1995. Parhaodd y tywydd braf tan yr hydref. Ar 18 Ragfyr cafwyd rhai yn swatio mewn lleoedd annisgwyl fel yn y brwgai yng ngardd Gwelfor, neu tu ôl i gaead y giat yng nghoedydd Aber (DB). Soniodd Dewi Jones, Antur Waunfawr, eu bod "yn crwydro'n rhydd yn yr ardal ers 'Dolig (1995)' ac fe welodd Wil Sandison amryw mewn coeden sbriws wrth ei pharatoi at y Nadolig. Ar 4 Ionawr 1996 cafwyd 72 o ohonynt yn blastar ar bolion ffens ger Crymlyn, Talybont, Bangor (Ilun DB).

O'r Dyddiadur: *The crop of a wild pheasant killed in Lincolnshire during the hard weather at the beginning of February, 1941, contained a very large number of "ladybirds" of different species and size. The terrain was a wood which is surrounded by stubble, grass, seed, turnip, and swede fields, all covered with snow at the time* (British Birds Ebrill 1941)

